



**Cymru**  
National Day Nurseries Association

# Factsheet

A photograph of a man with a beard and dark hair, wearing a light green t-shirt, leaning over a table. He is looking down at a book or document. Three young children are gathered around the table, also looking at the book. The background is a bright, modern nursery or classroom setting with white shelves and plants.

## Datblygu Llythrennedd yn y Blynyddoedd Cynnar

Cwricwlwm i Gymru

# Datblygu Llythrennedd yn y Blynyddoedd Cynnar

*“Set o sgiliau, gan gynnwys siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, sy'n ein galluogi i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas.”*

*Cwricwlwm i Gymru, Llywodraeth Cymru*

Mae llythrennedd, ynghyd â chymhwysedd digidol a rhifedd, yn sgiliau gorfodol traws-gwricwlaidd sy'n ymestyn ar draws y cwricwlwm cyfan, a'n cyfrifoldeb ni i yw sicrhau bod plant yn datblygu a dangos cynnydd yn y sgiliau yma. Wrth gynllunio profiadau dysgu, dylem sicrhau bod plant yn cael cyfle i ddefnyddio, datblygu ac ehangu'r sgiliau yma mewn modd ystyrlon, gan ddefnyddio'r pum llwybr datblygu.

## Beth yw llythrennedd?

Llythrennedd yw gallu deall, gwrando, siarad a chreu testun mewn modd sy'n ein galluogi i gyfathrebu yn dda gydag eraill. Mae llythrennedd yn hanfodol. Llythrennedd yw sail mynediad i'r byd o'n hamgylch, cymdeithasu ag eraill, datrys problemau, gwneud penderfyniadau, datblygu annibyniaeth, rheoli arian a gweithio. Mae sgiliau llythrennedd cynnar plant yn greiddiol i ddatblygiad eu lleferydd, iaith a chyfathrebu ac yn hanfodol i'w datblygiad cyffredinol.

## Datblygu llythrennedd a'r Cwricwlwm i Gymru

Mae datblygu llythrennedd yn rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae cymhwysedd mewn llythrennedd yn hanfodol ar gyfer dysgu ar draws y cwricwlwm, oherwydd rôl sylfaenol iaith mewn meddwl. Bydd y sgiliau datblygedig hyn yn hanfodol ac yn drosglwyddadwy i ddyfodol y plant yn ogystal â'u bywyd gwaith.

## Ymgorffori datblygiad llythrennedd ar draws y Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir

Mae'r FfLIRh yn cyflwyno'r sgiliau sydd eu hangen ar blant i ddysgu a datblygu. Mae elfen llythrennedd y fframwaith yn cynnwys sgiliau llefaredd, darllen ac ysgrifennu. Mae datblygiad llythrennedd cynnar yn canolbwyntio ar sut mae iaith a chyfathrebu yn allweddol i ddysgu plant. Mae'r profiadau llythrennedd a gaiff plant yn y blynyddoedd cynnar yn ffurfio cysylltiadau pwerus yn yr ymennydd. Defnyddir y cysylltiadau hyn ar gyfer iaith, meddwl a dealltwriaeth.

Mae llythrennedd yn y blynyddoedd cynnar yn cynnwys siarad am lyfrau, print yn yr amgylchedd, gwneud marciau cynnar ac ysgrifennu, yn ogystal â rhannu llyfrau a darllen. Heb brofiadau fel siarad, canu, darllen, odli, sgriblo a gwneud lluniau, nid yw'r ymennydd yn datblygu'r cysylltiadau pwysig hyn.

Yn ystod y gwaith o gyd-greu'r cwricwlwm nas cynhelir, cwblhawyd gwaith ar ymgorffori'r sgiliau yn y FfLIRh ar draws y pum llwybr datblygiad. Mae hyn yn golygu, os byddwch yn canolbwyntio ar ddatblygu eich dysgwyr drwy'r ffyrdd a ddisgrifir yn y llwybrau mewn modd cyfannol, yna byddwch

yn ymdrin â'r sgiliau sydd eu hangen yn y FfLIRh ar gyfer plant rhwng 3 a 4 oed ac ni fydd angen i chi ddefnyddio'r fframwaith llythrennedd fel dogfen unigol.

## Adnoddau datblygu llythrennedd

Cyn i blant allu dysgu darllen ac ysgrifennu, maent angen datblygu sgiliau llythrennedd cynnar sy'n eu galluogi i gyfathrebu, deall, arsylwi a gwneud marciau. I gefnogi plant gyda datblygu'r sgiliau yma, mae plant angen cael profiad o luniau, gwrthrychau, llythrennau, geiriau, synau a gwneud marciau.

Un o'r dulliau gorau o wella sgiliau llythrennedd yw i annog cariad tuag at lyfrau a straeon. Dylai plant gael profiad o lyfrau a deunydd darllen go iawn, gan gynnwys deunydd wedi eu creu gan y plant eu hunain. Dylai'r deunyddiau darllen yma fod ar gael ar draws yr amgylchedd, ac nid dim ond mewn un ardal darllen.

Dylai plant gael cyfleodd i ddatblygu sgiliau cynnar mewn gwneud marciau, fel chwarae gyda chlai a thoes, a thrwy chwarae blêr a phrofiadau sy'n eu cynorthwyo i ddatblygu sgiliau gafael yn ogystal â chael cyfleodd i wneud marciau ei hun ar draws amrywiaeth o gyd-destunau ac at amrywiaeth o ddibenion, gydag ystod o offer a chyfryngau.

Mae dysgu cyfathrebu yn un o'r sgiliau llythrennedd pwysicaf y gall plant eu datblygu. Mae oedolion sy'n galluogi yn adnodd canolog wrth ddatblygu'r sgiliau hyn. Pan fo oedolion sy'n galluogi yn chwarae, gwrando, ac yn cyfathrebu gyda phlant, maent yn eu cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu eu hunain. Dylai oedolion sy'n galluogi, annog plant i chwarae gydag iaith a chyfathrebu sy'n defnyddio sylwebaeth trafodaeth, modelu, cwestiynu, myfyrio ac esbonio.

## Datblygu llythrennedd wrth ymarfer

Dylid datblygu sgiliau llythrennedd yn gyfannol trwy brofiadau go iawn a chyfleodd chwarae. Dylai plant gael eu trochi mewn profiadau iaith gyfoethog a chyfleodd dysgu i ddatblygu eu sgiliau gwrando, siarad a chyfathrebu. Wrth ddatblygu iaith a chyfathrebu, dylem sicrhau bod plant yn cael amser i brosesu'r hyn y maent yn ei glywed ac yn ei weld, cyn ymateb, myfyrio ac ailymweld. Rhaid inni ddeall y bydd rhai plant hefyd yn cyfathrebu trwy ddulliau heblaw lleferydd.

Dylai amgylcheddau effeithiol fod yn gyfoethog o ran cyfathrebu a chanolbwyntio ar hybu sgiliau cyfathrebu newydd a'u datblygu ymhellach. Dylai'r amgylchedd sicrhau bod gan blant fynediad at ystod eang o adnoddau go iawn i helpu i adeiladu geirfa a hwyluso datblygiad cysyniad. Mae angen i blant glywed a defnyddio sgwrs mewn cyd-destunau dyddiol ystyrllon. Mae plant yn dysgu am lefaredd, darllen ac ysgrifennu wrth iddynt arsylwi a chymryd rhan weithredol mewn profiadau llythrennedd gwirioneddol, pwrpasol yn eu bywydau bob dydd.

Mae llawer o agweddau o ymarfer sy'n ddefnyddiol wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd plant, mae'n bwysig bod oedolion sy'n galluogi yn adnabod y cyfleodd hynny a manteisio arnynt. Gall rhai enghreifftiau o'r rhain fod:

- Trefn ddyddiol: hunan-gofrestru, enwau lleoedd, caneuon, rhigyau
- Mynediad i'r amgylchedd: labeli, symbolau, cyfarwyddiadau a chyfarwyddiadau

- Profiadau: gemau, recordio disgrifiadau plant o’r hyn maent wedi’i greu/dysgu; chwilio am rysáit, ei ddarllen a’i ddilyn; rhannu ‘amdanaf fi’
- Amgylchedd chwarae: llyfrau, marcio, chwarae rôl, pypedau, profiadau pryfoclyd a gwahoddiadau
- Amser stori/amser cylch: straeon, barddoniaeth, rhigymau a chaneuon, sach stori
- Meddwl parhaus ar y cyd: cwestiynu, myfyrio, ymestyn, archwilio.

Fel mae plant yn ymwneud ag ymarfer llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn eu bywydau pob dydd, maent yn dysgu am ffurf a phwrpas llafaredd, darllen ac ysgrifennu.

## Datblygiad proffesiynol

Mae’n bwysig ystyried gwybodaeth yr oedolion yn y lleoliad. Os mai rôl yr hwylusydd yw i hwyluso, galluogi a darganfod gyda’r plant – ydyn nhw yn hyderus yn eu sgiliau llythrennedd eu hunain? Wrth ddisgwyl i ymarferwyr ymgysylltu’n hyderus â datblygu gallu llythrennedd plant, mae’n bwysig ystyried dysgu a phrofiad er mwyn cynnig cymorth a hyfforddiant os oes angen. Nid oes rhaid i hyn fod yn gostus, weithiau gellir ei gyflawni trwy oruchwylio a gwyllo cyd-weithwyr wrth eu gwaith. Yr hyn sy’n bwysig yw bod pob ymarferwr yn gwybod ble i gael cymorth pellach ac yn deall pwysigrwydd datblygu sgiliau llythrennedd plant i gefnogi eu twf cyffredinol a sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial.

### Cwestiynau myfyriol:

- Sut ydych chi’n caniatáu amser a lle i blant chwarae, archwilio a datblygu eu sgiliau gwneud marc?
- Sut ydych chi’n hwyluso profiadau sy’n canolbwyntio ar lythrennedd trwy gynllunio ac ymateb i ddiddordebau plant?
- Sut ydych chi’n darparu ystod o brofiadau sy’n canolbwyntio ar lythrennedd mewn amrywiaeth o gyd-destunau?
- Sut ydych chi’n ymgysylltu â’r plant mewn meddwl ar y cyd parhaus?
- Sut ydych chi’n cyflwyno i’r plant gysyniadau a geirfa Newydd
- Sut ydych chi’n cefnogi plant i ddatblygu cariad tuag at lyfrau a darllen?

### Cefnogaeth bellach ac adnoddau NDNA:

- Cwricwlwm i Gymru – NDNA Cymru <http://www.ndna.org.uk/CFWAdditionalElements>
- Cwricwlwm i Gymru – Hwb <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru>
- Siarad gyda fi – Llywodraeth Cymru <https://www.llyw.cymru/siarad-gyda-fi>
- BookTrust Cymru - <https://www.booktrust.org.uk/cy-gb/what-we-do/booktrust-cymru/>
- National Literacy Trust - <https://literacytrust.org.uk/early-years/>



National Day Nurseries Association

# Taflen ffeithiau

**\*Meddwl mwy disglair  
ar gyfer y blynyddoedd cynnar**

Caiff ein tafleni ffeithiau eu hysgrifennu gan arbenigwyr blynyddoedd cynnar ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar. Mae'r rhan fwyaf o'n tafleni ffeithiau am ddim ar gyfer ein haelodau.

NDNA yw'r elusen genedlaethol a'r gymdeithas aelodaeth sy'n cynrychioli meithrinfeydd plant ar draws y DU. Rydym yn elusen sy'n credu mewn safon a chynhaliadwyedd felly rydym yn gosod busnesau ein haelodau wrth galon ein un ni.

Ni yw llais y sector meithrinfeydd a'i 21,000 o aelodau, ac yn ran o fywydau dros filiwn o blant ifanc a'u teuluoedd. Rydym yn darparu gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor i gefnogi meithrinfeydd a'r 250,000 o bobl sy'n gweithio ynddynt i ddarparu dysgu cynnar a gofal plant o safon rhyngwladol.

Gwelwch yr ystod lawn o dafleni ffeithiau NDNA ar [www.ndna.org.uk/factsheets](http://www.ndna.org.uk/factsheets)

Mae'r wybodaeth ddarparwyd yn y daflen ffeithiau yma at ddefnydd ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn unig. Ysgrifenydwyd y daflen gan arbenigwyr blynyddoedd cynnar ond ni ddylai gael ei ddefnyddio fel allddodyn i gyngor proffesiynol. Mae NDNA wedi ymdrechu i sicrhau cywirdeb y wybodaeth gyflwynwyd yn y daflen ffeithiau. Nid yw NDNA yn atebol yn gyfreithiol nac yn gyfrifol am eich dehongliad nac eich defnydd o'r wybodaeth a ddarperir

## NDNA Cymru

3 Ty Connaught, Parc Busnes Glan Yr Afon, Ffordd Benarth, Conwy, LL32 8UB  
ffôn: 01824 70 78 23 e.bost: [wales@ndna.org.uk](mailto:wales@ndna.org.uk)